***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 34)

## CYNHYRCHION AMAETHYDDOL SY'N BERTHNASOL I DDARPARIAETHAU SAFONAU MARCHNATA

*Llaeth a chynhyrchion llaeth*

1 Cynhyrchion sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o gofnodion (a) i (f) yn y tabl yn Rhan XVI o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

*Brasterau taenadwy*

2 Cynhyrchion—

(a) sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c) ym Mhwynt 1 o Ran VII o Atodiad VII i'r Rheoliad CMO, a

(b) sydd â chynnwys braster o 10% o leiaf ond heb fod yn fwy na 90% yn ôl pwysau.

*Cig eidion a chig llo*

3 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XV o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO, ond gan eithrio unrhyw gofnod yn y tabl ar gyfer anifeiliaid byw.

*Dofednod a chig dofednod*

4 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XX o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO, gan gynnwys unrhyw gofnod yn y tabl ar gyfer dofednod byw.

*Wyau a chynhyrchion wyau*

5 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XIX o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

*Ffrwythau a llysiau, ac eithrio olifau*

6 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn unrhyw un neu ragor o Rannau IX i XI o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

*Olew olewydd ac olifau bwyta*

7 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan VII o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

*Hopys*

8 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan VI o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

*Gwin*

9 Cynhyrchion sy'n dod o fewn y tabl yn Rhan XII o Atodiad 1 i'r Rheoliad CMO.

*Gwin a bersawrwyd*

10 Cynhyrchion sy’n dod o fewn y diffiniad o “aromatised wine products” yn Erthygl 3 o’r Rheoliad Gwin a Bersawrwyd.

*Dehongli*

11 Yn yr Atodlen hon, ystyr “y Rheoliad Gwin a Bersawrwyd” yw Rheoliad (EU) Rhif 251/2014 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 26 Chwefror 2014 ar ddiffiniad, disgrifiad, cyflwyniad, labelu a gwarchod dynodiadau daearyddol cynhyrchion gwin a bersawrwyd.